

Cyngor Sir Caerfyrddin Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod mis Mai 2017 tan fis Mai 2018 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

Y Cynghorydd: Eirwyn Williams	Adran Etholiadol: Cynwyl Gaeo
--------------------------------------	--------------------------------------

Rhan 1: Rôl a Chyfrifoldebau	
<i>Pwyllgorau'r Cyngor</i>	
Cyngor Llawn	Pwyllgor Penodi A - Cyfarwyddwyr
Pwyllgor Trwyddedu	Is-Bwyllgor Trwyddedu 'B'
Pwyllgor Cynllunio	
http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/mqAttendance.aspx?UID=155	

Rhan 2: Gweithgareddau Etholaeth
<ul style="list-style-type: none">• Cynorthwyo pobl leol sydd wedi cysylltu ynghylch materion personol yn ymwneud â iechyd a gofal. Llwyddo i ddelio yn llwyddiannus gyda'r mwyafrif o'r problemau a'r gofidiau ond mae rhai yn aros i dderbyn rhagor o sylw.• Cefnogi pobl mewn amryfal ffyrdd i sicrhau eu bod yn gallu elwa ar yr adnoddau a'r cyfleoedd sydd ar gael ar eu cyfer i wella eu safon byw.• Cydweithio gydag Aelod y Cynulliad a'r Aelod Seneddol i ddatrys problemau yn yr ardal.• Delio gyda nifer fawr o ymholiadau ynghylch yr heolydd.• Gweithio gyda'r swyddogion perthnasol i geisio sicrhau bod traffig yn arafu drwy'r pentrefi.• Ceisio cael gwared a rhoi terfyn ar y sbwriel sy'n cael ei daflu ar hyd y ffyrdd.• Cefnogi a chydweithio gyda sefydliadau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu adnoddau hamdden a diwylliannol yn eu hardaloedd a'u helpu gyda chael grantiau i'w galluogi i fynd ynghyd â gwaith cynnal a chadw.• Cwrdd â phobl fel bo'r angen i drafod a hyrwyddo ceisiadau cynllunio, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag anghenion lleol.• Mynychu cyfarfodydd tri Chyngor Bro er mwyn delio gyda materion lleol sy'n cael eu gwyntyllu gan y cynghorwyr. Mae'n gyfle hefyd i roi adroddiadau a chynnig cyngor yn ôl y galw.• Mynychu llawer o achlysuron a digwyddiadau yn yr ardal.

Rhan 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion
<i>Rhestr o Gyrff Llywodraethu Ysgolion</i>
Ysgol Carreg Hirfaen

Rhan 4: Dysgu a Datblygu
Hyfforddiant Diogelu Plant Seminar Ailgylchu

Llofnodwyd gan y Cynghorydd: J Eirwyn Williams	Y Dyddiad: 29/06/18
---	----------------------------